



# **Cynllun Iaith Gymraeg Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol**

**Adroddiad Monitro Blynyddol 2016-2017 i Gomisiynydd y  
Gymraeg**

## Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cefndir	4
Recriwtio	5
Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg	7
Y Pwyllgor Materion Cymreig	9
Y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod	10
Atodiad A - Cynllun Iaith Gymraeg 2016-17	
Atodiad B - Cynllun Iaith Gymraeg Arfaethedig 2017-18	

# 1. Cyflwyniad

Dyma'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ar Gynllun Iaith Gymraeg i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (y Comisiwn) ei baratoi ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Mae'n dangos y cynnydd rydym wedi'i wneud i roi ein cynllun ar waith ers iddo gael ei gymeradwyo gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Mai 2016. Mae'r cynllun ar gael ar wefan y Comisiwn: <https://jac.judiciary.gov.uk/welsh-language-scheme> a <https://jac.judiciary.gov.uk/cynllun-iaith-gymraeg>

Cyn hyn, roedd y Comisiwn yn rhan o Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Fe wnaethom ddatblygu'r cynllun gwirfoddol, arbenigol hwn er mwyn esbonio'n well sut rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n esbonio sut y gall ymgeiswyr ar gyfer penodiadau barnwrol gyfathrebu â'r Comisiwn yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl eu dewis personol.

Mae'r cynllun yn amlinellu sut rydym yn gweithredu'r egwyddor yn Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Dylid dehongli cwmpas ein hymrwymiaadau fel bod yn berthnasol i'r gweithgareddau a'r gwasanaethau recriwtio hynny yng Nghymru y gallwn eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

---

## 2. Cefndir

Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol sy'n cael ei noddi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Rydym yn dewis ymgeiswyr ar gyfer y swyddfa farnwrol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac ar gyfer rhai tribiwnlysoedd gydag awdurdodaeth ledled y DU. Bydd ymgeiswyr yn cael eu dewis yn ôl teilyngdod, drwy gystadleuaeth deg ac agored, ac rydym wedi ymrwmo i ddenu ymgeiswyr o feysydd mor eang â phosib. Rydym yn gweithio gydag ystod o sefydliadau i hyrwyddo swyddi gwag i ymgeiswyr cymwys.

Cafodd y Cynllun Iaith Gymraeg drafft ei gymeradwyo gan Fwrdd Comisiynu'r Comisiwn ym mis Medi 2015, ar ôl cynnal ymgynghoriad â'r cyhoedd. Aeth yr ymgynghoriad yn fyw ar 9 Hydref 2015, lle cafodd ei gyhoeddi'n ffurfiol yng Nghynhadledd Gyfreithiol Cymru 2015 gan Christopher Stephens, cyn-Gadeirydd y Comisiwn, a'r Athro Noel Lloyd, Comisiynydd y Comisiwn a chanddo gyfrifoldeb dros Gymru. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref i Gynllun Iaith Gymraeg penodol ar gyfer y Comisiwn. Roedd llawer o ymatebion yn cynnig gwelliannau i'r drafft ac awgrymiadau ar gyfer mireinio, ac fe wnaeth ymateb y Comisiwn i'r ymgynghoriad egluro sut roedd yr ymatebion wedi dylanwadu ar y polisi.

Roedd y cynllun gweithredu sydd ynghlwm wrth gynllun 2016 yn nodi ein prif dargedau gweithredu, rhai ohonynt i'w cyflwyno dros y flwyddyn i ddod, a rhai ohonynt i gael eu cyflwyno'n barhaus.

### 3. Recriwtio

Sefydliad yn Llundain yw'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol gyda llai na 50 aelod o staff. Nid oes ganddo bresenoldeb cyflenwi parhaol yng Nghymru. Nid yw Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn yn cynnwys recriwtio staff y Comisiwn gan nad oes unrhyw ofynion o ran yr iaith Gymraeg wedi'u canfod ar gyfer staff.

Lle mae angen sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer penodiad barnwrol, mae gennym ddau banelwr sy'n siarad Cymraeg i eistedd ar baneli ymarfer dethol. Maent yn cael cwmni aelodau o'r farnwriaeth sy'n siarad Cymraeg ac yn cael eu dyrannu i'r Comisiwn yn ôl y gofyn i eistedd ar baneli dethol. Mae'r Athro Noel Lloyd, sy'n siarad Cymraeg, yn sicrhau ansawdd ymarferion dethol lle mae angen sgiliau Cymraeg.

#### **Cwestiynau am feini prawf o ran y Gymraeg**

Mae maen prawf cymhwyster anstatudol yn berthnasol ar gyfer swyddi gwag yng Nghymru. Mae'r maen prawf wedi'i gymeradwyo gan yr Arglwydd Ganghellor ac yn nodi:

“Bydd yn rhaid i ymgeiswyr am swyddi yng Nghymru feddu ar ddealltwriaeth o sut gweinyddir cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a threfniadau datganoli yng Nghymru, neu'r gallu i feithrin y ddealltwriaeth hon”.

Gofynnir nifer o gwestiynau sy'n benodol i bob ymarfer yn ystod y cam cyfweld, gydag ymgeiswyr yn cael eu hasesu ar sail eu gwybodaeth am faterion perthnasol i Gymru.

Caiff yr holl baneli dethol sy'n eistedd ar ymarferion dethol ar gyfer swyddi yng Nghymru eu briffio o ran anghenion penodol Cymru gan yr Athro Noel Lloyd.

#### **Ymarferion dethol 2016–17**

Mae'r Comisiwn yn adrodd yn flynyddol ar nifer yr ymarferion sy'n cael eu cwblhau o fewn blwyddyn adrodd. Cafodd y cynllun iaith Gymraeg ei roi ar waith ym mis Mai 2016 a chafodd ei gymhwyso ar gyfer ymarferion dethol a aeth i'r camau cynllunio o'r adeg honno ymlaen. Roedd yn berthnasol i dri ymarfer; cafodd un o'r rhain ei gyflwyno mewn adroddiad yn 2016-17 (Barnwr Preswyl, Haen Gyntaf, Siambr Mewnfudo a Lloches Cymru) a bydd dau ohonynt yn rhan o adroddiad 2017-18. Mae'r adran hon yn manylu ar ymarferion dethol sy'n cael eu cwblhau yn 2016-17 er mwyn rhoi trosolwg o'r broses recriwtio barnwrol yng Nghymru.

Cafodd 26 o ymarferion dethol eu cwblhau a'u cyflwyno mewn adroddiad yn ystod 2016-17 ledled Cymru a Lloegr. Mae'r maes busnes gan gynnwys GLITEM, y Swyddfa Farnwrol a'r farnwriaeth yn nodi'r gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer swyddi gwag. Mae'r ceisiadau am swyddi gwag o'r maes busnes yn pennu'r gofynion, y mae'r Comisiwn yn ymateb iddynt.

- roedd un ymarfer dethol yn gofyn am gymhwysedd yn yr iaith Gymraeg; roedd y maen prawf cymhwysedd anstatudol yn y Gymraeg yn berthnasol hefyd:

- **Barnwr adran 9(1)<sup>1</sup>** - ymarfer cenedlaethol gyda 38 o swyddi gwag yn gyffredinol, un ohonynt yn swydd wag yng Nghymru yr oedd angen siaradwr Cymraeg ar ei chyfer. Yn anffodus, ni wnaeth dim un ymgeisydd gais am y swydd hon a chafodd y swydd wag ei thynnu'n ôl yn ddiweddarach
- Nid oedd pedwar ymarfer dethol ar gyfer swyddi gwag yng Nghymru yn gofyn am gymhwysedd yn yr iaith Gymraeg ond roedd y maen prawf cymhwyster anstatudol yn berthnasol:
  - **Barnwr Cylchdaith 2016:** ymarfer cenedlaethol a lansiodd ar 5 Chwefror 2016 gyda 55 o swyddi gwag yn gyffredinol, tair ohonynt yng Nghymru. Dewiswyd dau ar gyfer swyddi Cymru, gan adael un swydd wag heb ei llenwi
  - **Uwch Farnwr Cylchdaith, Barnwr Sifil Dynodedig Cymru:** un swydd, lansiwyd yr ymarfer dethol ar 25 Chwefror 2016. Dewiswyd un ymgeisydd
  - **Dirprwy Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon):** ymarfer cenedlaethol a lansiwyd ar 28 Mehefin 2016 gyda 18 o swyddi gwag yn gyffredinol, un ohonynt yng Nghymru, a dewiswyd rhywun ar gyfer y swydd hon
  - **Barnwr Preswyl, Haen Gyntaf, Siambr Mewnfudo a Lloches Cymru:** un swydd. Lansiwyd yr ymarfer dethol ar 9 Tachwedd 2016, a dewiswyd ymgeisydd.
- Nid oedd gan un ymarfer ar gyfer swydd wag yng Nghymru ofynion iaith Gymraeg, ac nid oedd y cwestiynau am feini prawf o ran y Gymraeg yn berthnasol. Swydd ran-amser oedd hon i aelodau meddygol tribiwnlys, ac fel swydd arbenigol heb fod yn gyfreithiol nid oedd y meini prawf cymhwyster anstatudol yn berthnasol:
  - **Tribiwnlys Meddygol, Haen Gyntaf sy'n Derbyn Ffi, y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Meddwl) aThribiwnlys Meddygol, sy'n Derbyn Ffi, Adolygu Iechyd Meddwl Cymru:** lansiwyd ar 10 Chwefror 2016 gyda 10 swydd wag yng Nghymru. Dewiswyd deg ymgeisydd ond gwrthododd un o'r ymgeiswyr a ddewiswyd y penodiad yn ddiweddarach.
- Cynhaliwyd dau ymarfer dethol o dan Adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru ofyn am gymorth gan gyrff cyhoeddus eraill ar gyfer gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol. Yn yr achosion hyn, Gweinidogion Cymru oedd yn penderfynu ar lefel cymhwysedd yn yr iaith Gymraeg. Rhoddodd y Comisiwn gymorth i Lywodraeth Cymru gyda'r ymarferion canlynol lle'r oedd y Gymraeg yn ddymunol, ac roedd y maen prawf cymhwyster anstatudol yn berthnasol:
  - **Aelod Addysg sy'n Derbyn Ffi, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru:** lansiwyd ar 30 Gorffennaf 2016 gyda phedair swydd wag,

---

<sup>1</sup> Mae Adran 9 (1) Deddf Uwch Lysoedd 1981 yn caniatáu i'r Arglwydd Brif Ustus neu ei enwebai awdurdodi Barnwyr Cylchdaith, Cofiadurwyr a beirniaid tribiwnlys cymwys i eistedd yn yr Uchel Lys i ddiwallu anghenion busnes.

dwy ar gyfer penodi ar unwaith a dwy i fod ar restr swyddi gwag yn y dyfodol. Dewiswyd pedwar ymgeisydd, dau ar gyfer y swyddi gwag ar unwaith a dau ar gyfer y swyddi gwag yn y dyfodol. Ni wnaeth un o'r ymgeiswyr ar gyfer y swydd wag yn y dyfodol dderbyn y penodiad. Roedd un o'r ymgeiswyr a ddewiswyd ar gyfer y swyddi gwag ar unwaith yn siarad Cymraeg.

- **Llywydd Panel Dyfarnu Cymru:** un swydd gyda'r ymarfer dethol yn cael ei lansio ar 10 Chwefror 2016. Nid oedd unrhyw ofyniad o ran y Gymraeg, ac roedd y cwestiynau am feini prawf o ran y Gymraeg yn berthnasol. Dewiswyd un ymgeisydd.

## 4. Monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg

### Ymarferion dethol

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn ei gyhoeddi ar 23 Mai 2016 ac roedd yn berthnasol i'r ymarferion dethol a oedd yn gysylltiedig â'r camau cynllunio ar ôl ei gyhoeddi. Roedd y cynllun yn berthnasol i'r ymarferion dethol canlynol (nid oedd gofynion o ran y Gymraeg yn berthnasol i'r un ohonynt) a chafodd fersiynau Cymraeg o'r hysbysebion swyddi eu cyhoeddi:

- Barnwr Preswyl, Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Mewnfudo a Lloches Cymru (lansiwyd ym mis Tachwedd 2016)
- Cofiadur 2017 (lansiwyd ym mis Chwefror 2017)
- Barnwr Cylchdaith 2017 (lansiwyd ym mis Mawrth 2017)

Dim ond mewn achosion eithriadol y bydd y Comisiwn yn hysbysebu'n allanol. Roedd adran 'hysbysebu' ein Cynllun Iaith Gymraeg yn amlinellu darpariaethau ar gyfer unrhyw achosion lle defnyddiwyd dulliau hysbysebu allanol. Ni ddefnyddiwyd unrhyw ddulliau hysbysebu allanol ar gyfer ymarferion dethol yng Nghymru yn ystod 2016-17.

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus yn ystod 2016-17, ac nid oedd angen unrhyw asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg yr ymgeiswyr. Nid oes unrhyw gwynion neu ymholiadau wedi'u cyflwyno yng nghyswllt ein Cynllun Iaith Gymraeg, ac nid oes unrhyw enghreifftiau lle mae'r Comisiwn wedi methu cynnal darpariaethau'r cynllun.

Mae pob proses o ddatblygu ein system TG wedi'i gohirio yn sgil methiant TG sylweddol ym mis Chwefror 2017. Mae'r Comisiwn wedi dod â'r contract â'r cyflenwr presennol i ben ac yn gweithio gyda chyflenwr arall i ddatrys y problemau a nodwyd. Bydd datblygiad o ran yr iaith Gymraeg yn cael ei ystyried yn ystod 2018-19 ar ôl mynd i'r afael â'r materion sydd eisoes yn bodoli.

### Cyfryngau Cymdeithasol

Mae pum neges trydar wedi'u cyhoeddi yn Gymraeg o'n cyfrif Twitter: y cyntaf i roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Iaith Gymraeg; tair neges trydar i godi ymwybyddiaeth o Dribiwnlys Haen Gyntaf Barnwr Preswyl y Siambr Mewnfudo a Lloches; ac un i roi cyhoeddusrwydd i Gofriadur 2017.

### Cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu

Cafodd fersiwn gwreiddiol o'r cynllun gweithredu ei atodi i'r Cynllun Iaith Gymraeg a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf wedi'i nodi mewn **ffont trwm** isod.



Thema a chyfeirnod	Gweithgaredd	Dyddiad targed	Cynnydd	Statws
Ar gael	Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan a mewnrwyd y Comisiwn	Mawrth 2016	Yr ymgynghoriad i agor ym mis Hydref 2015 a chau ym mis Rhagfyr 2015, er mwyn i'r Comisiwn ymateb iddo ym mis Mawrth 2016	<b>23 Mai 2016 - Y cyhoeddiad wedi'i ohirio yn sgil y cyfnod cyn etholiad 2016 Cynulliad Cenedlaethol Cymru</b>
Cyngor ac arweiniad	Datblygu canllaw mewnol i gyd-fynd â'r polisi, gan gynnwys asesu sgiliau iaith a gwybodaeth am amrywiaeth o ran y gyfraith, trefniadau datganol ac ati.  Y Comisiwn i'w ddatblygu ar y cyd â phartneriaid cyflenwi (GLITEM, y Swyddfa Farnwrol)	Mawrth 2016	Drafft cychwynnol o bolisi mewnol wedi'i gwblhau; bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn dilyn y cyfnod ymgynghori	<b>Wedi cwblhau - y canllaw ar gael i'r holl staff o fis Mawrth 2016 ymlaen</b>  <b>Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer staff gweithredol ym mis Ebrill 2016 cyn rhoi'r canllaw ar waith. Bydd sesiwn gloywi yn cael ei chynnal bob blwyddyn i gyd-fynd ag adolygiad y Cynllun Iaith Gymraeg.</b>
Gallu digidol	Datblygu System Recriwtio Penodiadau Barnwrol (JARS) i gynnwys ffurflen gais ar-lein yn Gymraeg.	Parhaus	Ffurflenni Cymraeg y gofynnir amdanynt drwy gontract â datblygwyr trydydd parti; dyddiad cyflwyno i'w gadarnhau pan fydd cytundeb ar waith	<b>Wedi'i ohirio tan 2018-19 oherwydd materion TG (gweler tudalen 7)</b>
Polisiau newydd a diwygiedig	Ystyried effaith y polisiau newydd a diwygiedig ar y Cynllun Iaith Gymraeg	Parhaus	Bydd y broses o weithredu hyn yn cael ei monitro'n barhaus	<b>Parhaus. Ni chyflwynwyd unrhyw bolisiau dethol newydd a allai gael effaith ar y Cynllun Iaith Gymraeg</b>
Monitro ac adolygu	Paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg a fydd ar gael i Fwrdd a Phwyllgor Gwaith y Comisiwn; Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Nawdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Barnwr Cyswllt Cymru	Blynyddol (mis Rhagfyr)		<b>Wedi cwblhau - cafodd yr amseroedd eu haddasu i gyd-fynd ag Adroddiad Monitro Blynyddol y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a oedd yn gofyn am yr un wybodaeth o ran recriwtio barnwrol</b>

## 5. Y Pwyllgor Materion Cymreig

Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig yn is-bwyllgor newydd o Fwrdd Comisiynu'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Fe'i cadeirir gan yr Athro Noel Lloyd, Comisiynydd y Comisiwn sydd â chyfrifoldeb dros Gymru. Aelodau eraill y pwyllgor yw Mrs Ustus Philippa Whipple, Comisiynydd y Comisiwn (Barnwrol) a Martin Forde CF, Comisiynydd y Comisiwn (Proffesiynol - Bargyfreithiwr).

Ffurfiwyd y Pwyllgor yn dilyn cyfarfod rhwng Prif Weinidog Cymru a Chadeirydd y Comisiwn, y Gwir Anrhydeddus Athro Lord Ajay Kakkar, ynghyd â'r Athro Noel Lloyd. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Materion Cymreig ar 9 Mawrth 2017, a bydd y Pwyllgor yn parhau i eistedd bob deufis.

Yn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor mai prif bwrpas y grŵp oedd monitro effaith bosibl datganoli yng Nghymru ar y broses benodi ar gyfer swyddi barnwrol ledled Cymru a Lloegr, ac i sicrhau bod y Comisiwn yn ymwybodol o anghenion Cymru.

Fe roddodd yr Athro Lloyd friff i'r Pwyllgor am gefndir datganoli, yn enwedig effaith Deddf Cymru 2017 a deddfwriaeth flaenorol, ac ar y gwahaniaeth cynyddol rhwng y gyfraith yng Nghymru a'r gyfraith yn Lloegr. Pwysleisiwyd pwysigrwydd hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru, o gofio nad oes cyfundrefniad o'r gwahaniaethau yn y gyfraith.

Hefyd, bu'r Pwyllgor yn trafod cefndir Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn, y logisteg o asesu sgiliau iaith Gymraeg a'r gronfa bresennol o gwestiynau ynghylch y 'dimensiwn Cymreig' sydd wedi'u cynllunio i asesu dealltwriaeth ymgeiswyr o faterion sy'n effeithio ar Gymru ar gyfer swyddi perthnasol.

## 6. Y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod

Dyma'r cynllun gweithredu ar gyfer 2017-18:

Thema a chyfeirnod	Gweithgaredd	Dyddiad targed	Cynnydd	Dyddiad Cyflawni
Ar gael	Cyhoeddi Cynllun 2017-18 gyda'r cynllun gweithredu diwygiedig ar wefan y Comisiwn	Gorffennaf 2017		
Cyngor ac arweiniad	Adolygu'r canllaw mewnol Hyfforddiant gloywi ar y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer staff	Awst 2017		
Gallu digidol	Adolygu trefniadau TG ac ystyried dichonoldeb ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg	Ebrill 2018		
Polisiau newydd a diwygiedig	Ystyried effaith polisiau newydd a diwygiedig ar y Cynllun Iaith Gymraeg	Parhaus	Bydd y broses o weithredu hyn yn cael ei monitro'n barhaus	
Monitro ac adolygu	Paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg a fydd ar gael i Fwrdd a Phwyllgor Gwaith y Comisiwn; Cydlynwyr Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Nawdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Barnwr Cyswllt Cymru	Bob blwyddyn		